**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 26 TACHWEDD 2019 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Cadeirydd Dros Dro); Mr David Powell (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro); Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 10:15
**Amser Gorffen:** 14:45

**Ymddiheuriadau:** Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr)

1. **Datganiadau Buddiant**

1.1. Datganodd Nathan Sweetman fuddiant ym Mro Morgannwg.
1.2. Datganodd Tom Jenkins fuddiant yn Rhondda Cynon Taf.

Nid oedd y Cadeirydd o'r farn bod unrhyw un o'r datganiadau buddiannau yn atal y swyddogion dan sylw rhag cymryd rhan lawn mewn trafodaethau, heblaw pan oedd y ward etholiadol a oedd yn benodol i unigolyn yn cael ei hystyried.

2. **Gwybodaeth Friffio gan y Cadeirydd**

2.1. Llongyfarchodd y Cadeirydd Mr Matthew a Mrs Caroline Redmond ar enedigaeth eu plentyn cyntaf.

2.2. Arweiniodd y Cadeirydd drafodaethau ynglŷn â dechrau arolwg etholiadol Sir Fynwy. Yn y cyfarfod diwethaf â Llywodraeth Cymru, adroddwyd bod Gorchymyn Cymunedol Sir Fynwy yn cael ei lunio ac y byddai diweddariad yn cael ei roi o fewn yr ychydig wythnosau nesaf.

2.3. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r cyfarfod bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y dylai'r Gorchmynion arolwg etholiadol cyntaf gael eu cwblhau erbyn mis Mai/Mehefin 2020 ac y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Comisiwn yn ffurfiol pan fydd Gorchymyn yn cael ei wneud.

2.4. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r cyfarfod ar benodi Cadeirydd newydd CFfDLC. Mae'r broses recriwtio wedi'i chwblhau, mae penodiad ar ddigwydd a dylai cyhoeddiad gael ei wneud cyn y Nadolig.

2.5. Trafodwyd mater Morlyn Llanw Abertawe gan fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn debygol o gyflwyno'r arolwg presennol gydag opsiynau i'r Gweinidog.

2.6. Trafodwyd y Bil Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) ac uno'n wirfoddol. **Cytunodd** y Comisiwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

2.7. Trafodwyd adroddiad diweddar gan Un Llais Cymru mewn perthynas ag arolygon Cyngor Cymuned.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2019

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar ddau fân ddiwygiad.

## 4. Materion sy'n Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 22 Tachwedd 2019 gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad a nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol:

- **(Mater 2)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach
- **(Mater 3)** Data Ychwanegol ar gyfer Arolygon
- **(Mater 5)** Y Bil Llywodraeth Leol

4.3. O ran **(Mater 1)**, sef y Rhaglen Newid, nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi cyhoeddi cynnwys 'Arolwg Staff' ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac mae hynny'n effeithio ar yr amserlen ar gyfer ein harolwg staff ni. O ran diweddaru cynlluniau allweddol, gwerthoedd a monitro, bydd y Prif Weithredwr yn rhoi rhestr o'r hyn sydd wedi'i ddiweddaru i gyfarfod nesaf CFfDLC.

4.4. O ran **(Mater 4)**, sef y Bil Partneriaeth Gymdeithasol, bydd y Prif Weithredwr yn llunio ymateb ar gyfer cyfarfod nesaf CFfDLC.

4.5. O ran **(Mater 6)**, sef yr Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd ynglŷn â TGCh, adroddwyd bod rhan olaf y prosiect TGCh, sef trosglwyddo llinellau ffôn, wedi cael ei chychwyn. Hefyd, **cytunwyd** y dylai hyfforddiant ar Skype a TG gael ei drefnu ar gyfer y Comisiynwyr.

## 5. Arolwg Etholiadol Abertawe – Opsiynau Terfynol

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 19 Tachwedd 2019 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef y Castell a Sain Tomos, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol y Castell, Sain Tomos a Glannau.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol i ryw raddau.
- Mae'n creu ward newydd ag un aelod.
- Mae'n cydnabod datblygiadau mwy newydd y Glannau fel ardal unigryw.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 7 aelod, sy'n uwch na'r 6 aelod presennol.**

5.3. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Castle | Y Castell |
| St Thomas | Sain Tomos |
| Waterfront | Glannau |

5.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 2, sef Llandeilo Ferwallt, Llwynteg, Gŵyr, Pen-clawdd a Phennard, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pum ward etholiadol Llandeilo Ferwallt, Llwynteg, Gŵyr, Pen-clawdd a Phennard.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol i ryw raddau.
- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Fe’i cefnogir gan y cynrychiolaethau a gafwyd.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 5 aelod, sef dim newid.**

5.5. Mae’r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Bishopston | Llandeilo Ferwallt |
| Fairwood | Llwynteg |
| Gower | Gŵyr |
| Pen-clawdd | Pen-clawdd |
| Pennard | Pennard |

5.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 3, sef Moelfryn, Newton, Ystumllwynarth a’r Groesffordd a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol Moelfryn, Newton ac Ystumllwynarth.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw’n creu cymuned ranedig.
- Mae’n cydymffurfio’n llwyr â rhai o’r cynrychiolaethau a gafwyd.
- Mae’n cydymffurfio’n rhannol â’r gynrychiolaeth a gafwyd gan y Cyngor a Grŵp y Ceidwadwyr.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 6 aelod, sef dim newid.**

5.7. Mae’r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Mayals | Moelfryn |
| Mumbles | Mwmbwls |
| West Cross | Y Groesffordd |

5.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 4, sef Dyfnant, Gogledd Cilâ a De Cilâ, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Dynfant a Chilâ.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Fe’i cefnogir gan y cynrychiolaethau a gafwyd i beidio â rhannu cymuned Cilâ.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 3 aelod, sy’n llai na’r 4 aelod presennol.**

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Dunvant and Killay | Dyfnant a Chilâ |

5.9. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 5, sef y Cocyd a Thregŵyr, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol y Cocyd, Waunarlwydd a Thregŵyr.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n lleihau nifer y wardiau â phedwar aelod.
- Fe’i cefnogir gan rai o’r cynrychiolaethau a gafwyd.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 6 aelod.**

5.10. Mae’r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Cockett | Y Cocyd |
| Gowerton | Tregŵyr |
| Waunarlwydd | Waunarlwydd |

5.11. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 6, sef Kingsbridge, Casllwchwr Isaf a Chasllwchwr Uchaf, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Llwchwr.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 3 aelod.**

5.12. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Llwchwr | Llwchwr |

5.13. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 7, sef Gorseinon, Penlle'r-gaer a Phenyrheol, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol Gorseinon a Phenyrheol, a Phenlle'r-gaer.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Fe'i cefnogir gan y Cyngor a'r Cyngor Tref.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 4 aelod, sef dim newid.**

5.14. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Gorseinon and Penyrheol | Gorseinon a Phenyrheol |
| Penllergaer | Penlle’r-gaer |

5.15. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 8, sef Clydach, Llangyfelach, Mawr a Phontarddulais, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol Clydach, Llangyfelach, Pontarddulais, a Phontlliw a Thir-coed.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Mae’n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae’n cydymffurfio â’r awgrym mwyafrifol yn y gynrychiolaeth gan y Cyngor.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 7 aelod, sy’n uwch na’r 6 aelod presennol.**

5.16. Mae’r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu’r enwau fel y’u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Clydach | Clydach |
| Pontardulais | Pontarddulais |
| Llangyfelach | Llangyfelach |
| Pontlliw and Tircoed | Pontlliw a Thir-coed |

5.17. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer ward etholiadol bresennol Rhanbarth 9, sef Llansamlet, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae’r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Llansamlet.

Nodwyd y rheswm canlynol i gefnogi’r penderfyniad:

- Nid yw’n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

**Mae’r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 4 aelod, sef dim newid.**

5.18. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Llansamlet | Llansamlet |

## 6. Arolwg Etholiadol Rhondda Cynon Taf – Opsiynau Terfynol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 19 Tachwedd 2019 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef Cilfynydd, y Cymer, Glyncoch, y Graig, y Ddraenen Wen, Tref Pontypridd, Rhondda, Canol Rhydfelen / Ilan, Ffynnon Taf, Trallwng, Trefforest ac Ynysybwl, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys deuddeg ward etholiadol Cilfynydd, y Cymer, Glyncoch, y Graig a Rhondda, y Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf, Tref Pontypridd, Rhydfelen Uchaf, Canol Rhydfelen, Ffynnon Taf, Trallwng, Trefforest ac Ynysybwl.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n cydymffurfio â llawer o'r cynrychiolaethau a gafwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 15 aelod, sy'n uwch na'r 14 aelod presennol.**

6.3. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Cilfynydd | Cilfynydd |
| Cymmer | Y Cymer |
| Glyncoch | Glyncoch |
| Graig and Pontypridd West | Y Graig a Gorllewin Pontypridd |
| Hawthorn and Lower Rhydfelen | Y Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf |

| | |
|---|---|
| Pontypridd Town | Tref Pontypridd |
| Rhydfelen Central | Canol Rhydfelen |
| Upper Rhydfelen and Glyn-taff | Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf |
| Taffs Well | Ffynnon Taf |
| Trallwng | Trallwng |
| Treforest | Trefforest |
| Ynysybwl | Ynysybwl |

6.4. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 2, sef Pentre'r Eglwys, Llanilltud Faerdref, a Thon-teg, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol Pentre'r Eglwys, Llanilltud Faerdref a Thon-teg.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n cydymffurfio â'r holl gynrychiolaethau a gafwyd.
- Mae'n adlewyrchu'r ffaith bod gan y tair ardal hunaniaeth unigryw.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 5 aelod, sef dim newid.**

6.5. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Church Village | Pentre'r Eglwys |
| Llantwit Fardre | Llanilltud Faerdref |
| Ton-teg | Ton-teg |

6.6. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer ward etholiadol bresennol Rhanbarth 3, sef Beddau, Tref Llantrisant, Tonysguboriau a Thyn-y-nant, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol Beddau a Thyn-y-nant, a Thref Llantrisant a Thonysguboriau.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n cydymffurfio'n rhannol â rhai o'r cynrychiolaethau a gafwyd.
- Byddai'r gynrychiolaeth i ychwanegu aelod arall at ward Beddau a Thyn-y-nant wedi mynd â'r Cyngor dros y terfyn o 75 aelod.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 4 aelod, sef dim newid.**

6.7. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Beddau and Tyn-y-nant | Beddau a Thyn-y-nant |
| Llantrisant and Talbot Green | Llantrisant a Thonysguboriau |

6.8. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 4, sef Llanhari a Phont-y-clun, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys pedair ward etholiadol Llanhari, Canol Pont-y-clun, Dwyrain Pont-y-clun a Gorllewin Pont-y-clun.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 4 aelod, sy'n uwch na'r 3 aelod presennol.**

6.9. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Llanharry | Llanhari |
| Pont-y-clun Central | Canol Pont-y-clun |
| Pont-y-clun East | Dwyrain Pont-y-clun |
| Pont-y-clun West | Gorllewin Pont-y-clun |

6.10. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 5, sef Brynna a Llanharan, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Brynna a Llanharan.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae gan y ward lefel briodol o amrywiant o'r cyfartaledd sirol o hyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 3 aelod, sy'n uwch na'r 2 aelod presennol.**

6.11. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Brynna and Llanharan | Brynna a Llanharan |

6.12. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer ward etholiadol bresennol Rhanbarth 6, sef Gorllewin Tonyrefail, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Gorllewin Tonyrefail.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n cydymffurfio â'r holl gynrychiolaethau a gafwyd.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 2 aelod, sy'n uwch na'r 1 aelod presennol.**

6.13. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Tonyrefail West | Gorllewin Tonyrefail |

6.14. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 7, sef Llwyn-y-pia, Pentre, Trealaw, Treherbert, Treorci ac Ystrad, a **chytunodd**

**ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys chwe ward etholiadol Llwyn-y-pia, Pentre, Trealaw, Treherbert, Treorci ac Ystrad.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn gymedrol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 10 aelod, sy'n llai na'r 11 aelod presennol.**

6.15. Yn seiliedig ar y cynrychiolaethau a gafwyd, a'r Opsiwn a ffefrir gan yr Ysgrifenyddiaeth, mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Llwyn-y-pia | Llwyn-y-pia |
| Pentre | Pentre |
| Trealaw | Trealaw |
| Treherbert | Treherbert |
| Treorchy | Treorci |
| Ystrad | Ystrad |

6.16. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 8, sef Glynrhedynog, Maerdy, Tylorstown ac Ynyshir, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**, ond gan gadw enwau presennol y wardiau. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys dwy ward etholiadol Maerdy a Glynrhedynog a Tylorstown ac Ynyshir.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn gymedrol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 4 aelod, sy'n llai na'r 6 aelod presennol.**

6.17. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Ferndale and Maerdy | Glynrhedynog a Maerdy |
| Tylorstown and Ynyshir | Tylorstown ac Ynyshir |

6.18. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 9, sef Hirwaun a'r Rhigos, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys ward etholiadol Hirwaun a'r Rhigos.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 2 aelod, sef dim newid.**

6.19. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|
| Hirwaun, Penderyn and Rhigos | Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos |

6.20. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 10, sef Gogledd Aberaman, De Aberaman, Cwmbach, Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar, a **chytunodd ar opsiwn 1 y cynnig drafft**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys tair ward etholiadol Aberaman, Cwmbach ac Aberpennar.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.
- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 7 aelod, sy'n llai na'r 8 aelod presennol.**

6.21. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn argymell mabwysiadu'r enwau fel y'u hargymhellir isod:

| Enw Saesneg | Enw Cymraeg |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Aberaman | Aberaman |
| Cwmbach | Cwmbach |
| Mountain Ash | Aberpennar |

7. **Arolwg Etholiadol Bro Morgannwg – Opsiynau Drafft**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 19 Tachwedd 2019 gan y Swyddog Arolygon.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol presennol Rhanbarth 1, sef y Bont-faen, Llandŵ/Ewenni, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Saint-y-brid, a **chytunodd ar opswin 2**. Mae'r opswin hwn yn cynnwys pum ward etholiadol y Bont-faen, Llandŵ, Llanilltud Fawr, Sain Tathan a Saint-y-brid.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n darparu gwell cydraddoldeb etholiadol yn gyffredinol.
- Mae'n gwella'r amrywiant etholiadol ar gyfer wardiau etholiadol Sain Tathan a Saint-y-brid heb newid y trefniadau presennol llawer.
- Mae'n darparu'r cydraddoldeb etholiadol gorau ar gyfer yr ardal ar yr un pryd â chynnal cysylltiadau cymunedol a chysylltiadau trafnidiaeth gymaint â phosibl.
- Mae'n cydymffurfio'n rhannol â'r cynrychiolaethau a gafwyd.
-

**Mae'r opsiwn hwn yn dychwelyd cyfanswm o 12 aelod, sy'n uwch na'r 10 aelod presennol.**

7.3. Ystyriodd y Comisiwn y cynigion ar gyfer wardiau etholiadol Rhanbarth 2, sef Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown ac Illtyd, a **chytunodd ar opsiwn 2**. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys wyth ward etholiadol Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Court, Dyfan, Gibbonsdown ac Illtyd.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Nid yw'n creu unrhyw gymunedau rhanedig.
- Mae'n cadw nifer o wardiau presennol.

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol.

**Mae opsiwn 2 yn dychwelyd cyfanswm o 20 aelod, sy'n uwch na'r 18 aelod presennol.**

7.4. Ystyriodd y Comisiwn y trefniadau presennol ar gyfer ward Cadog, ac mae'r Comisiwn o'r farn y byddai ward â thri aelod yn arwain at lefel uchel o amrywiant etholiadol. Felly, mae'r Comisiwn wedi gwneud eithriad i'w bolisi i beidio â chreu unrhyw wardiau newydd â phedwar aelod. Mae'r Comisiwn o'r farn bod hyn yn briodol yn yr achos hwn, ond byddai'n croesawu awgrymiadau ar gyfer trefniadau amgen.

## 9. Rheoli Risgiau – Cofrestr Risgiau

9.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Tachwedd 2019 gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi cael eu gweithredu.

9.2 **Cytunwyd** y gallai camau gweithredu lliniarol Cam 5 a Cham 7 Risg CR2 gael eu dileu bellach gan fod yr Ymarfer JEGS wedi cael ei gwblhau a bod yr argymhellion wedi cael eu hystyried yn llawn.

9.3 **Cytunwyd** y dylid ychwanegu cam gweithredu lliniarol newydd at risg CR3 i adlewyrchu ymdrin â'r gŵyn a gafwyd ynglŷn ag Arolwg Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr.

9.4 **Cytunwyd** y dylid ychwanegu cam gweithredu lliniarol newydd at risg CR5 ynglŷn â'r penderfyniad i gynyddu nifer aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) trwy ychwanegu Comisiynydd hyd nes bod Cadeirydd newydd yn cael ei benodi.

9.5 **Cytunwyd** y gallai risg CR7 gael ei dileu o'r gofrestr risgiau ym mis Ionawr os oedd y system ffôn wedi cael ei huwchraddio'n llwyddiannus.

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb

10.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Tachwedd 2019 gan y Rheolwr Cyllid. Nododd a chytunodd yr Aelodau â'r bwriad o drosglwyddo arian rhwng categorïau cyllidebol.

10.2 Nodwyd y sefyllfa bresennol o ran y gyllideb a'r tanwariant blynyddol amcangyfrifedig. Trafodwyd y sefyllfa amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn a nododd yr Aelodau y gofynion gwariant sydd i ddod a amlinellwyd gan y Prif Weithredwr.

**11. Gwerthuso Effeithiolrwydd y Bwrdd**

11.1 Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Tachwedd 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2 Nododd y Comisiwn ganlyniad yr ymarfer asesu. Ystyriwyd dadansoddiad o'r ymatebion a thrafodwyd y cwestiynau yr oedd aelodau wedi ymateb yn wahanol iddynt.

11.3 Cytunwyd y byddai'r tîm Rheoli yn llenwi'r holiadur yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Byddai'r canlyniadau'n helpu i lywio unrhyw gamau ychwanegol sy'n ofynnol.

**12. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

a. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Tachwedd gan y Dirprwy Brif Weithredwr, gan gynnwys dadansoddiad pellach o gymarebau cyfartalog yn ôl categori Awdurdod.

b. **Nodwyd** bod Etholiad Cyffredinol mis Rhagfyr wedi achosi oedi o ran cyhoeddi rhai adroddiadau arolwg etholiadol.

c. **Cytunwyd** ychwanegu Dadansoddiad o'r Nod o ran Maint Cynghorau at yr Amserlen Cynnydd Arolygon.

ch. **Nodwyd** cynnwys gweddill yr adroddiad.

**13. Calendr Digwyddiadau**

**a.** **Nododd** y Comisiwn y calendr a'r cyfarfodydd i ddod ym mis Ionawr gyda Chyngor Sir Fynwy a Chyngor Casnewydd sydd i'w hychwanegu.

**14. Unrhyw Fater Arall Perthnasol**

a. Ystyriwyd llythyr cwyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynglŷn â’r Arolwg Etholiadol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 17 Rhagfyr 2019**